

ABBE Tystysgrif mewn Asesu Ynni Annomestig Lefel 3



Yn gwyno

Mae'r Dystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Ynni Annomestig yn gwrs dwys 3 diwrnod sydd wedi'i gynllunio ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau adeiladu, pensaernïaeth, archwilio neu feysydd perthnasol, gyda'r nod o ddod yn aseswyr ynni achrededig ar gyfer adeiladau an-nomestig.

Wedi'i ariannu drwy Coleg Gwent a Chyfrif Dysgu Personol Cymru (PLA), mae'r cwrs hwn yn cwmpasu rheoliadau perfformiad ynni, adeiladwaith, systemau HVAC, a hyfforddiant ymarferol er mwyn cynnal arolygon safle a defnyddio meddalwedd asesu ynni.

Mae cwblhau'n llwyddiannus yn galluogi dysgwyr i gofrestru gyda chyrrff achredu, cynnal asesiadau ynni, a dyfarnu Tystysgrifau Perfformiad Ynni (EPCau), gan wella cyfleoedd gyrfa o fewn ymgynghori amgylcheddol, rheoli eiddo a rolau o fewn y llywodraeth.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sydd â ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu sy'n addas i'w ffordd o fyw bresennol (yn amodol ar gymhwysedd).



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cynnwys y cwrs

Astudiaeth Theoretidd: Dysgu am reoliadau perfformiad ynni, adeiladwaith a systemau HVAC.

Hyfforddi Ymarferol: Cynnal arolygon safle ar gyfer adeiladau an-nomestig a defnyddio meddalwedd asesu ynni.

Aseiniadau a Phrosiectau: Cwblhau gwaith cwrs yn seiliedig ar sefyllfaoedd go iawn a chynhyrchu adroddiadau effeithlonrwydd ynni manwl.

Arholiadau: Darparu a llwytho asesiadau ymarferol er mwyn arddangos eich gwybodaeth a'ch sgiliau.

Gofynion Mynediad

Cefndir Addysgol: Yn ddelfrydol, bod â chefnidir mewn gwasanaethau adeiladu, pensaerniaeth neu faes perthnasol.

Sgiliau Sylfaenol: Bod yn fedrus o ran sgiliau cyfrifiadurol a dealltwriaeth sylfaenol o adeiladwaith a systemau ynni.

Profiad Gwaith: Mae profiad blaenorol yn fuddiol ond nid wastad yn hanfodol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bwriad rhaglen PLA yw darparu cyngor ac arweiniad o safon ar yr yrfa i gyfranogwyr cyn, yn ystod ac wedi eu dysgu.

Cyn i chi gael eich ymrestru ar eich cwrs sydd wedi'i ariannu gan PLA, bydd cynllun dysgu unigol yn cael ei drafod gyda chi er mwyn sicrhau bod y dysgu cywir wedi cael ei ystyried.

Bydd hyn yn cynnwys trafodaeth gyffredinol ar y pynciau canlynol:

addysg ffurfiol neu gymwysterau mewn meysydd perthnasol
profiad blaenorol o fewn y diwydiant neu faes
dyheadau gyrfa yn y dyfodol
ymrwymo i'r amser sydd ei angen

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

